Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Tai Ceredigion Cyf – L151

Mawrth 2020

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

https://llyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wediu-cofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddiol?_ga=2.156061811.935929104.1567502747-967264633.1559633053

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-80038-032-5
Hawlfraint y Goron 2020

# Proffil

Crewyd Tai Ceredigion Cyf ("Tai Ceredigion" neu "y Grŵp") drwy achos o Drosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT) o Gyngor Sir Ceredigion ar 30 Tachwedd 2009. Mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru o dan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol. Mae ganddo un is-gwmni anghofrestredig - Cymdeithas Gofal The Care Society.

Lleolir y rhan fwyaf o'r eiddo yn Sir Ceredigion ac maent yn cynnwys eiddo anghenion cyffredinol (1,992) unedau gwarchod (313) a lesddeiliaid (110).

Mae Tai Ceredigion yn cael ei reoli gan Fwrdd Rheoli o hyd at wyth o bobl; dau enwebeion y Cyngor, pedwar aelod Bwrdd Annibynnol, dau aelod sy'n Denantiaid ac yn ogystal mae tri cyfetholedig.

Daeth 21 o gartrefi o dan reolaeth y Grŵp yn 2018/19.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 28.2% | 26.6% | dd/g | 20.1% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 14.8% | 15.9% | dd/g | 8.1% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 0.6% | 1.1% | dd/g | 2.1% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 100% | 87% | dd/g | 75% |
| Benthyciadau Grŵp £ miliwn | 20.0 | 23.1 | 35.0 | dd/g |
| Mae gan y Grŵp ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar ddatblygu tai newydd ac ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath. | | | | |

# Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2020

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.